Mewn partneriaeth â

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Global Entrepreneurship Monitor

## Adroddiad Cymru 2022 /23



**Awduron** Karen Bonner, Neha Prashar, Anastasia Ri and Mark Hart

Aston University BIRMINGHAM UK

Ulster University

Mewn partneriaeth â

NatWest

Prosiect rhyngwladol yw'r Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang a oedd yn cynnwys 49 o economïau yn 2022. Ei nod yw darparu gwybodaeth am dirwedd entrepreneuraidd gwledydd. Mae llawer o astudiaethau wedi dangos bod entrepreneuriaeth yn ysgogydd pwysig ar gyfer twf economaidd, cystadleurwydd a chreu swyddi. Defnyddir canlyniadau dadansoddiad data GEM fel dangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol dros y byd i gyd. Maint y sampl yng Nghymru yn 2022 oedd 1,513 o oedolion dros 18 oed o ganlyniad i hybu sampl genedlaethol y DU gan Lywodraeth Cymru.

# Cydnabyddiaethau

Rydym yn falch o gael NatWest yn noddi Adroddiad DU y Monitor Entrepreneuriaeth Fyd-eang 2021. Fel y cefnogwr fwyaf o fusnesau bach yn y Deyrnas Unedig, maent yn deall y rôl bwysig y mae busnesau newydd, busnesau bach a thwf uchel yn chwarae mewn economi gref a ffyniannus yn y DU. Diolch yn arbennig i Cerris Dearsley-Hopkins a'i thîm yn Llywodraeth Cymru.

Gwnaed hi'n bosib i gonsortiwm y DU gyfrannu ym mhrosiect Monitor Entrepreneuriaeth Fyd-eang yn 2021 trwy gyllid gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) Cyfarwyddiaeth Arloesi Busnes, Canolfan Hunter ar gyfer Entrepreneuriaeth ym Mhrifysgol Strathclyde, Llywodraeth Cymru, Adran yr Economi (Gogledd Iwerddon) a NatWest

BMG Research Ltd cynhaliodd yr Arolwg Poblogaeth Oedolion a hoffem ddiolch i Dawn Hands, Roger Sant a Julie Hollingsworth am eu rôl wrth weithredu'r arolwg yn amserol a chreu'r set ddata DU. Yn benodol, hoffem ddiolch i Roger Sant am ei gyfraniad amhrisiadwy i'r pwysoli ymgymerwyd â eleni oherwydd y dull deuol a ddefnyddiwyd i gael ymatebion i'r arolwg Monitor Entrepreneuriaeth Fyd-eang – hynny yw, CATI ac Ar-lein.

## Ymwadiad

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan gonsortiwm GEM a thîm GEM UK; yr awduron sy'n llwyr gyfrifol am ddadansoddi a dehongli'r data.

**I gael rhagor o wybodaeth am brosiect GEM UK, cysylltwch â**

Yr Athro Mark Hart
Adran Economeg, Cyllid ac Entrepreneuriaeth
Ysgol Fusnes Aston, Prifysgol Aston
Aston Triangle, Birmingham, B4 7ET
E-bost: mark.hart@aston.ac.uk

# Adroddiad GEM 2022/23

## Rhagair gan James Holian,
## Rheolwr Gyfarwyddwr Bancio Busnes NatWest

Mae'r Monitor Entrepreneuriaeth Fyd-eang diweddaraf yn rhoi llais awdurdodol ar dueddiadau entrepreneuraidd y flwyddyn ddiwethaf. Gyda dros 10,000 o oedolion yn cymryd rhan yn arolwg y DU yn unig, mae'r ymchwil yn parhau i gynnal ei safon uchel. Yn yr un modd, mae NatWest yn parhau i fod yn falch o noddi'r adroddiad hwn, ac, am yr ail flwyddyn, adroddiadau ychwanegol ar gyfer Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru.

Er gwaethaf cyfnod o gythrwfl geowleidyddol, gwasgfa costau byw a chwyddiant uchel, roedd 2022 yn flwyddyn gadarn i entrepreneuriaid y DU, gyda bron i draean o'r ymatebwyr yn cymryd rhan mewn gweithgaredd entrepreneuraidd neu'n bwriadu cychwyn busnes; ffigur sydd dal i fyny o 2020.

Mae ymchwil o'r adroddiad yn dangos, wrth edrych ar ddyfodol eu busnesau, fod effaith gymdeithasol yn fwy o ystyriaeth i entrepreneuriaid cyfnod cynnar na busnesau sefydledig. Ac mae mentrau newydd yn fwy tebygol o ystyried effaith amgylcheddol eu penderfyniadau na busnesau sefydledig, er nad ydynt yn fwy tebygol o weithredu.

Mae busnesau bach a chanolig wedi adrodd mai un o'r rhwystrau mwyaf i'r diffyg symudiad hwn yw cyrchu offer i fesur a lleihau eu hallbwn carbon yng nghanol costau ynni a deunydd uchel. Mae polisïau a rheoliadau'r llywodraeth i helpu busnesau i gyrraedd Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig trwy grantiau neu doriadau treth yn faes sydd angen ei wella.

Fodd bynnag, ar nodyn cadarnhaol, mae'r canfyddiadau'n datgelu bod y gymhareb gweithgaredd entrepreneuraidd cyfnod cynnar rhwng menywod a dynion ar ei huchaf yn 2022, sy'n dyst i wytnwch menywod mewn cyfnod o newid, pan fo ofn methiant ychydig yn uwch ymhlith menywod. Yn y cyfamser, mae entrepreneuriaeth ieuenctid yn dal i godi, gyda'r rhai o dan 35 oed yn llawer mwy tebygol o ddechrau busnes na'u cyfoedion hŷn.

Mae nifer y bobl o oedran gweithio sy'n canfod cyfleoedd dechrau busnes da yn ystod y chwe mis i ddod wedi gostwng, gan adlewyrchu heriau'r gwanwyn a'r haf diwethaf ac amlygu'r angen i gadw ein hadferiad cyn y pandemig yn egnïol ac ar y trywydd iawn.

Yn NatWest rydym yn gweld hyn fel galwad i ddatgloi potensial ein busnesau a'u cymunedau. I'r entrepreneuriaid hynny sy'n dechrau busnes ac yn datblygu busnes, rydym yn benderfynol o fod yno i sicrhau eu bod yn ffynnu, tra'n cefnogi hinsawdd, talent a thwf yn ystod cyfnod o ansicrwydd economaidd.

# Prif Ganfyddiadau

- 7.8 y cant oedd cyfradd cyfanswm entrepreneuriaeth cyfnod cynnar (TEA) yng Nghymru yn 2022. Roedd hyn yn is na'r gyfradd o 10.3 y cant yn 2021 ond nid yn arwyddocaol wahanol iddi. Fodd bynnag, roedd y gyfradd yn 2022 yn arwyddocaol is na'r gyfradd yn Lloegr (11.5%) a'r DU (11.0%).

- Yn 2022 roedd entrepreneuriaid cyfnod cynnar yng Nghymru'n cael eu cymell yn fwyaf cryf i ddechrau busnes gan yr angen i ennill bywoliaeth am bod swyddi'n brin (dros 60 y cant). Roeddent yn lleiaf tebygol o ddechrau busnes er mwyn parhau â thraddodiad teuluol.

- Ar 6.1 y cant nid oedd y gyfradd TEA ymhlith menywod yng Nghymru yn 2022 yn arwyddocaol wahanol i'r gyfradd ymhlith dynion, sef 9.5 y cant. Roedd y ddwy gyfradd wedi gostwng, ond nid oeddent yn arwyddocaol wahanol, o'i gymharu â 2021 sef yr uchaf i gael ei chofnodi erioed ar gyfer Cymru. Roedd y gyfradd TEA ymhlith menywod yng Nghymru yn 2022 yn arwyddocaol is nag yn y DU; nid oedd unrhyw wahaniaeth o'r fath ar gyfer dynion.

- Mae lefel yr entrepreneuriaeth ieuenctid yng Nghymru'n arwyddocaol uwch yn 2022 nag oedd yn 2002: 12.4 y cant o'i gymharu â 2.0 y cant. Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn y gyfradd TEA ar draws grwpiau oedran yng Nghymru yn 2022.

- Mae oddeutu ddwy ran o bump (42.6%) o'r rhai nad ydynt yn entrepreneuriaid yn dweud bod ganddynt y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad i ddechrau busnes ac mae cyfran debyg (44.8%) yn adnabod entrepreneur sydd wedi dechrau busnes yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar 60.8 y cant mae cyfran uwch o lawer o bobl ifanc (18-24 oed) yn adnabod entrepreneur o'i gymharu â'r boblogaeth ehangach nad ydynt yn entrepreneuriaid.

- Ar oddeutu traean, mae cyfran debyg o'r rhai nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru a'r DU yn credu bod cyfleoedd da i ddechrau busnes yn lleol o fewn y chwe mis nesaf. Mae cyfraddau ofn methu'n debyg hefyd. Yn 2022 dywedodd bron i dair rhan o bump o'r rhai yng Nghymru a oedd yn nodi cyfleoedd i ddechrau busnes y byddai ofn methu'n eu hatal rhag dechrau busnes.

- Mae bwriad i ddechrau busnes yn dal i fod yn uwch yn 2022. Ar y cyfan mae 15.7 y cant o'r oedolion o oedran gweithio nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru'n disgwyl dechrau busnes o fewn y tair blynedd nesaf, sydd ychydig islaw cyfradd y DU, sef 18.5 y cant.

# Cefndir

GProsiect rhyngwladol yw'r Monitro Entrepreneuriaeth Byd-eang (GEM) sy'n ceisio darparu gwybodaeth am dirwedd entrepreneuraidd gwledydd yn seiliedig ar y canlynol. Yn gyntaf, mae ffyniant economi'n dibynnu'n fawr ar sector entrepreneuriaeth deinamig. Yn ail, mae capasiti entrepreneuraidd economi'n cynnwys unigolion o bob grŵp mewn cymdeithas sydd â'r gallu a'r cymhelliad i ddechrau busnes ac mae'n galw am ganfyddiadau cymdeithasol cadarnhaol am entrepreneuriaeth. Yn drydydd, mae entrepreneuriaeth twf uchel yn gyfrannwr allweddol at gyflogaeth newydd mewn economi, ac mae cystadleurwydd cenedlaethol yn dibynnu ar fentrau entrepreneuraidd arloesol a thrawsffiniol.

Llywodraeth Cymru sy'n nodi'r elfen o brosiect ymchwil GEM UK a gynhelir yng Nghymru. Mae ysgogi entrepreneuriaeth yn dal i fod yn her bwysig i'r rhanbarth ac mae Llywodraeth Cymru wedi cydio yn yr awenau i sicrhau bod hyn yn dod yn rhan annatod o'i gweithgareddau craidd. Dyma'r ugeinfed flwyddyn i Lywodraeth Cymru gyfranogi yn GEM. O'r 372,000 o ymatebwyr i arolygon GEM UK ar gyfer y cyfnod 2002-2022, mae oddeutu 68,000 o ymatebwyr o Gymru. Mae gan Gymru bellach un o'r cronfeydd data mwyaf ar agweddau, gweithgarwch a dyheadau entrepreneuraidd gwledydd cartref y DU ar gyfer y cyfnod hwn. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth gynnal dadansoddiad o dueddiadau ar gyfer is-boblogaethau pwysig yng Nghymru, megis menywod, pobl ifanc neu bobl hŷn.

Defnyddir canlyniadau dadansoddiad GEM fel dangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol ledled y byd. Maent hefyd yn ei gwneud yn bosibl dwyn cymariaethau â rhanbarthau eraill y DU a gwledydd eraill sy'n cyfranogi yn GEM. Ar y cyfan, mae gallu unigryw GEM i ddarparu gwybodaeth am dirwedd entrepreneuraidd gwledydd mewn cyd-destun byd-eang yn gwneud ei ddata'n adnodd angenrheidiol ar gyfer unrhyw ymgais difrifol i astudio a thracio ymddygiad entrepreneuraidd.

Mae'n bwysig bod gennym ddealltwriaeth well am benderfynyddion entrepreneuriaeth cyfnod cynnar oherwydd bod tystiolaeth i awgrymu bod cysylltiad rhwng cyfraddau entrepreneuriaeth uwch a ffyniant economaidd ar y cyfan, yn enwedig mewn economïau sy'n cael eu sbarduno gan arloesi, megis Cymru.

# Sut y Mae GEM yn Mesur Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Mae GEM yn creu mynegai o weithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (a adwaenir fel TEA) gan ddefnyddio'r dull canlynol:

- Cynhelir arolwg ffôn o sampl ar hap o'r boblogaeth oedolion rhwng mis Mai a mis Medi bob blwyddyn.
- Swm yr ymatebwyr hynny sy'n perthyn i'r dosbarth entrepreneuriaid eginol a'r dosbarth entrepreneuriaid cwmni newydd yw'r mynegai TEA.

Nid yw'r mynegai TEA yn mesur yr holl weithgarwch entrepreneuraidd ac nid yw'n seiliedig ar arolwg o endidau busnes. Mae'n mesur nodweddion unigolion entrepreneuraidd a'r mathau o endidau y maent yn eu sefydlu. Gan hynny mae'n fesur unigryw a chymharol yn rhyngwladol o dueddfryd diwylliannol gwlad, neu ranbarth, i fod yn entrepreneuraidd.

Yn flaenorol yn GEM, y dull o wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o weithgarwch entrepreneuraidd oedd mesur i ba raddau yr oedd y gweithgarwch yn seiliedig ar anghenraid (h.y. nid oes dewisiadau eraill gwell ar gyfer gwaith) neu gyfle (lle gall entrepreneuriaid fod yn manteisio ar y potensial ar gyfer creu marchnadoedd newydd). Mae'r cwestiynau cyfredol am gymhelliant, sy'n rhychwantu dewis ehangach, yn ei gwneud yn bosibl dadgyfuno cymhelliad entrepreneuraidd yn fwy manwl na'r hyn a oedd yn bosibl gyda'r dewis deuaidd blaenorol. Yn ogystal â gweithgarwch, mae'r arolwg GEM yn gofyn i'r holl ymatebwyr am eu hagweddau at weithgarwch entrepreneuraidd ac yn gofyn i entrepreneuriaid am eu dyheadau.

Caiff y fethodoleg, meintiau'r samplau a systemau pwysoli a ddefnyddiwyd ar gyfer arolwg poblogaeth oedolion GEM UK 2022 eu hegluro mewn mwy o fanylder yn adroddiad GEM UK 2022 (www.gemconsortium.org). Cyflwynwyd newid pwysig yn nyluniad y sampl yn 2010 pan ddewiswyd 10 y cant o'r ymatebwyr ym mhob un o Ranbarthau Swyddfeydd y Llywodraeth (GOR) ar hap o aelwydydd a oedd â ffonau symudol ond heb ffonau ar linellau tir sefydlog. Yn 2015, cynyddwyd hyn i 20 y cant, yn unol ag amcangyfrifon diweddar yn y gyfran o aelwydydd â ffonau symudol yn unig yn y DU ac fe gadwyd y gyfran honno yn arolwg 2022. O ganlyniad, yn yr adroddiad hwn, dygir cymariaethau â gwledydd eraill a thueddiadau seiliedig-ar-amser yn y DU gan ddefnyddio'r sampl lawn (aelwydydd â llinellau tir a ffonau symudol yn unig yn ogystal â'r dull cymysg CATI/CAWI).

Mae'r adroddiad canlynol yn cyflwyno crynodeb o'r prif ganlyniadau a'r themâu allweddol sy'n codi o arolwg GEM yn 2022 yn ogystal â dadansoddiad o ddata GEM dros ugain mlynedd (2002-22).

1 Y cyfnod cynllunio gweithredol pan fo'r entrepreneur wedi wneud rhywbeth yn ystod y 12 mis diwethaf i helpu i ddechrau busnes newydd, busnes newydd y bydd o leiaf yn rhannol berchen arno, ac nad yw wedi talu unrhyw gyflog nac incwm arall i'r perchnogion yn y 3 mis diwethaf.


2 Y diffiniad o'r ail gyfnod yw rhwng 4 a 42 mis ar ôl i'r fenter newydd ddechrau darparu incwm ar gyfer y perchnogion. Cyfeirir at entrepreneuriaid sydd o leiaf yn rhannol berchen ar fusnes newydd ac yn ei reoli a hwnnw wedi bod yn talu rhyw fath o incwm i'r perchnogion am o leiaf 4 a dim mwy na 42 mis fel entrepreneuriaid cwmni newydd.

# Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar


7.8 y cant oedd y gyfradd entrepreneuriaeth cyfnod cynnar yng Nghymru yn 2022 a oedd yn is na'r amcangyfrif o 10.3 y cant yn 2021 er nad oedd y gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol. Fodd bynnag, roedd y gyfradd yn 2022 yn arwyddocaol is na chyfraddau 2022 yn Lloegr (11.5 y cant) ac amcangyfrif y DU o 11.0 y cant (Ffigur 1).

Ar y cyfan, mae cyfradd TEA o 7.8 y cant yng Nghymru'n cyfateb i oddeutu un ymhob deuddeg oedolyn 18-64 oed, neu oddeutu 142,000 o unigolion, yr oedd 67 y cant ohonynt yng nghamau cynnar iawn dechrau busnes (entrepreneuriaid eginol 5.2 y cant) ac yr oedd gan y gweddill ohonynt fusnes newydd a oedd rhwng 4 a 42 mis oed. 7.1 y cant oedd y ffigwr cymharol ar gyfer perchnogion busnes eginol yn y DU.


Fel y dengys Ffigur 2a fe arhosodd cyfradd gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yng Nghymru a'r DU yn weddol sefydlog rhwng 2004 a 2010, ar oddeutu 6 y cant. Aeth y cyfraddau ar drywyddion gwahanol wedi hynny, ac fe welwyd cyfnewidioldeb yn y ddwy gyfres hefyd. Fel gyda rhannau eraill o'r DU, cyrhaeddodd gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru ei anterth yn 2021 ar 10.3 y cant. Yn 2022 mae cyfradd y DU wedi dal ei thir ar oddeutu 11 y cant ond mae'r gyfradd yng Nghymru wedi syrthio'n ôl islaw 8 y cant, gan ehangu'r bwlch gyda'r DU unwaith eto. Mae'r canlyniadau hyn yn tanlinellu effaith y pandemig ar weithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar ac yn 2022 mae bellach fwy neu lai ar yr un lefel â'i gyfartaledd dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Yn 2022, 5.2 y cant oedd cyfradd gweithgarwch entrepreneuraidd eginol yng Nghymru, sy'n ostyngiad, ond nid yn un arwyddocaol, o 7.4 y cant yn 2021. Nid oedd y gyfradd perchnogaeth ar fusnesau newydd o 2.7 y cant yn arwyddocaol wahanol i'r gyfradd o 3.0 y cant yn 2021 ychwaith. O'i gymharu, roedd y gyfradd entrepreneuriaeth eginol yn y DU yn ddigyfnewid i raddau helaeth rhwng 2021 a 2022 ar 7.2 y cant a 7.1 y cant yn y drefn honno. Roedd y gyfradd perchnogaeth ar fusnesau newydd ar gyfer




**Ffigur 1: Cyfanswm gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (TEA) yng Ngwledydd Cartref y DU 2022** (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)




**Ffigur 2a: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Nghymru a'r DU 2002-22** (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)




**Ffigur 2b: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yn Nwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru a'r DU 2002-22** (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM))

y DU yn debyg yn y ddwy flynedd hefyd ar 4.5 y cant yn 2021 a 4.3 y cant yn 2022. Yn seiliedig ar hyn, mae'r gwahaniaeth mewn cyfraddau TEA rhwng Cymru a'r DU yn 2022 i'w briodoli i'r gwahaniaethau mewn entrepreneuriaeth eginol a pherchnogaeth ar fusnesau newydd.


Tan 2011 bu cyfraddau TEA Dwyrain a Gorllewin Cymru'n dilyn tueddiadau tebyg (Ffigur 2b). Er bod bwlch wedi agor rhwng y ddau wedi hynny, nid oedd y cyfraddau'n arwyddocaol wahanol. O 2017 roedd y gyfradd yng Ngorllewin Cymru'n uwch nag yn Nwyrain Cymru ond, eto, nid oedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol. Mae hyn yn dal yn wir yn 2022 lle'r oedd y gyfradd TEA yn Nwyrain Cymru'n 8.9 y cant o'i gymharu â chyfradd o 6.8 y cant yng Ngorllewin Cymru.

Ers Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM 2020, cyflwynwyd dull newydd a gwell o fwrw golwg ar gymhellion sylfaenwyr ar gyfer dechrau eu busnes. Yn flaenorol roedd y cwestiwn a ofynnid yn rhy gaeth a dim ond yn caniatáu dewis rhwng entrepreneuriaeth anghenraid ac entrepreneuriaeth cyfle. Cafodd y

cwestiynau hyn eu disodli â'r rhai a oedd yn darparu ar gyfer cyfuniad o gymhellion, gan alluogi set fwy realistig o ysgogwyr ar gyfer dechrau busnes.

Y pedwar cymhelliad oedd "i wneud gwahaniaeth yn y byd", "i gronni cyfoeth mawr neu incwm uchel iawn", "i barhau â thraddodiad teuluol" ac "i ennill bywoliaeth am bod swyddi'n brin". Gellir meddwl am y ddau gyntaf fel rhai a ysgogir gan gyfle, tra bo'r trydydd yn fwy cymhleth gan y gallai hyn fod o ganlyniad i gyfle neu anghenraid. Gellir meddwl am yr un olaf fel un a ysgogir yn fwy gan anghenraid. Fodd bynnag, y pwynt sylfaenol yw nad yw'r opsiynau hyn yn nacau ei gilydd yn awr, a bod entrepreneuriaid yn gallu enwi mwy nag un cymhelliad a dweud i ba raddau y maent yn uniaethu â hwy. Sylwer nad yw'r cymhellion hyn yn cynnwys awtonomiaeth nac annibyniaeth; y rheswm dros hyn yw bod rhagbrofion wedi dangos bod hyn yn gymhelliad cyffredinol i entrepreneuriaid ac nad yw'n gwahaniaethu rhwng mathau o entrepreneuriaid.

Mae Ffigur 3 yn dangos dadansoddiad o'r cymhellion hyn yn ôl gwlad gartref fel canran o entrepreneuriaid cyfnod cynnar. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd entrepreneuriaid cyfnod cynnar yn yr holl wledydd cartref yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod wedi dechrau busnes "i barhau â thraddodiad teuluol" na'r holl gymhellion eraill. Yn debyg i 2021, dywedodd mwy na thair rhan o bump o'r holl entrepreneuriaid eu bod wedi dechrau busnes "i ennill bywoliaeth am bod swyddi'n brin". Dywedodd cyfran debyg o entrepreneuriaid yng Nghymru a'r DU eu bod wedi'u cymell i ddechrau eu busnes 'i wneud gwahaniaeth yn y byd' ar 53.4 y cant o'i gymharu â 53.2 y cant yn y DU ar y cyfan. Cafodd oddeutu 60 y cant eu cymell gan yr angen 'i gronni cyfoeth mawr neu incwm uchel iawn' o'i gymharu â 63 y cant yn y DU ar y cyfan.





**Ffigur 3: Cymhelliad ar gyfer Entrepreneuriaeth yng Ngwledydd Cartref y DU 2022**
(Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)


## Pwy yw'r Entrepreneuriaid yng Nghymru?

**Rhywedd:** Mae gan ddynion yn nodweddiadol gyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar uwch na menywod. Yn 2022, 9.5 y cant roedd y gyfradd TEA ymhlith dynion yng Nghymru o'i gymharu â chyfradd o 6.1 y cant ymhlith menywod – nid oedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol. Yn y DU yn 2022 roedd cyfraddau TEA ymhlith dynion yn arwyddocaol uwch nag ymhlith menywod (Ffigur 4) ond nid oedd unrhyw wahaniaethau ar draws y gwledydd cartref.

Mae'r gymhareb o ran gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar rhwng menywod a dynion yn hanesyddol wedi bod oddeutu 50 y cant yn y DU ond mae'r bwlch wedi lleihau'n ddiweddar, gan fod yn 79 y cant yn 2022. 64 y cant oedd y gymhareb yng Nghymru yn 2022, i lawr o 92 y cant yn 2021. Roedd cymarebau Gogledd Iwerddon a'r Alban yn debyg, sef 71 y cant a 68 y cant yn y drefn honno tra bo cymhareb Lloegr yn debyg i gymhareb y DU ar 81 y cant.




**Ffigur 4: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yn ôl Rhywedd yng Ngwledydd Cartref y DU yn 2022** (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)





**Ffigur 5: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar ymhlith Menywod yng Nghymru a'r DU, 2002-2022** (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)


Gall cymarebau blynyddol amrywio o un flwyddyn i'r llall, felly mae'n well edrych arnynt dros y tymor hwy. Mae'r cymarebau cyfartalog tymor hir dros y cyfnod rhwng 2002 a 2022 yn awgrymu bod dynion ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn entrepreneuriaid cyfnod cynnar na menywod gyda chymhareb o 58 y cant yng Nghymru, 54 y cant yn Lloegr a 57 y cant yn yr Alban. Mae'r gymhareb TEA rhwng menywod a dynion yng Ngogledd Iwerddon yn is, ar 43 y cant yn unig, oherwydd y cyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd isel yn hanesyddol ymhlith menywod.

Mae'r gyfradd TEA ymhlith menywod yng Nghymru wedi codi a gostwng dros amser, gan gyrraedd y gyfradd uchaf erioed cyn y pandemig o 7.0 y cant yn 2019 y rhagorwyd arni wedyn gan gyfradd o 9.8 y cant yn 2021 (Ffigur 5). Yn 2022 fe ostyngodd y gyfradd yn ôl i 6.1 y cant. Cyrhaeddodd y gyfradd TEA ymhlith dynion yng Nghymru anterth yn flaenorol yn 2011 ar 10.2 y cant ond cyrhaeddodd anterth newydd o 10.7 y cant yn 2021. Gostyngodd y gyfradd hon hefyd i 9.5 y cant yn 2022. Mae Ffigur 5 yn dangos bod cyfraddau TEA ymhlith menywod yng Nghymru'n cyfateb i duedd y DU tan 2010 a'u bod, ar ôl cyfnod o fod ar drywyddion gwahanol i'w gweld fel pe baent yn dilyn tuedd y DU. Erbyn 2022 roedd y bwlch yn y cyfraddau ymhlith menywod wedi ehangu nes ei fod bron yn 4 pwynt canran.

**Oedran:** Yn y DU mae unigolion 25-34 oed yn nodweddiadol yn arddangos y cyfraddau uchaf o weithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar. Yn 2022 yn y DU roedd gan y rhai 45 oed neu'n hŷn gyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd arwyddocaol is na'r rhai 25-34 oed. Yn yr Alban roedd gan y rhai 55-64 oed hefyd gyfradd TEA arwyddocaol is na'r rhai 25-34 oed.




**Figur 6: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yn ôl Oedran yng Ngwledydd Cartref y DU, 2022** (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)




**Ffigur 7: Tuedd mewn Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar ymhlith pobl 18-24 oed yng Nghymru a'r DU, 2002 i 2022** (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)


Yng Nghymru, ac yng Ngogledd Iwerddon, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn y cyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd ar draws y bandiau oedran (Ffigur 6).

Am nifer o flynyddoedd, roedd gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru wedi bod yn symud tuag at genhedlaeth iau, er enghraifft roedd cyfraddau TEA arbennig o uchel ar gyfer pobl 18-24 oed yn ystod cyfnod y Dirwasgiad Mawr, gan gyrraedd anterth o 10.2 y cant yn 2011. Fe ostyngodd yn ôl yn y cyfnod wedi hynny ond cododd i lefel uwch nag erioed o 16.5 y cant yn 2021. Yn 2022 mae'r gyfradd wedi gostwng ond mae'n dal i fod yn uwch ar 12.4% (Ffigur 7). Mae cyfradd y DU hefyd wedi bod yn codi'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac er ei bod wedi codi i'w chyfradd uchaf o 13.0 y cant yn 2021, mae wedi gostwng yn ôl yn 2022 i 12.1%.


O'i gymharu â'r DU, mae'r gyfradd uwch o ran gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar ymhlith y rhai 18-24 oed yng Nghymru a welwyd yn ystod y dirwasgiad yn awgrymu eu bod wedi wynebu hinsawdd economaidd anos, gyda'r diffyg swyddi'n golygu bod angen ymgymryd â hunangyflogaeth a ddiflannodd wrth i'r economi adfer. Ers 2015 bu cynnydd mewn entrepreneuriaeth ieuenctid yn y DU nad yw wedi cael ei adlewyrchu yng Nghymru, hynny yw tan 2020 pan ymddengys fod y pandemig wedi sbarduno entrepreneuriaeth anghenraid ymhlith y grŵp oedran hwn unwaith eto. Roedd hyn wedi parhau yn 2021 a 2022 ac mae'n ddigon posibl ei fod yn adlewyrchu'r gweithgareddau entrepreneuriaeth ieuenctid cynyddol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae addysg fenter wedi bod yn brif ffactor sydd wedi cyfrannu dros y degawdau diwethaf ac mae'r dystiolaeth hon yn dynodi ei bod yn ddigon posibl ei bod yn cael effaith ar weithgareddau entrepreneuraidd gwirioneddol y bobl ifanc hyn.

Dadansoddiad a allai fod yn fwy defnyddiol yw asesu'r duedd yn y gyfradd TEA ar gyfer y grŵp oedran 18-29 (lle ymddengys fod toriad naturiol yn nata gweithgarwch UK GEM) a chymharu honno â'r grŵp oedran 30 i 64. Dengys Ffigurau 8 a 9 fod y gyfradd TEA ar gyfer oedolion ifainc yng Nghymru, er gwaethaf llawer o amrywiadau blynyddol, wedi codi deirgwaith drosodd dros ddau ddegawd o 3.4 y cant yn 2002 i 10.3 y cant yn 2022. Fodd bynnag, roedd y gyfradd yn 2022 wedi gostwng o'i hanterth, sef 15.3%, yn 2021. Profodd y gwledydd cartref eraill gynnydd yng nghyfraddau TEA pobl 18 i 29 oed dros y cyfnod hefyd, ar gyfradd cynnydd a oedd yn debyg i Gymru.

Fe gyrhaeddodd cyfraddau TEA y rhai 30-64 oed eu hanterth ym mhob un o'r gwledydd cartref yn 2021. Digwyddodd hyn er gwaethaf y gostyngiad a welwyd yn 2020. Mae'r cynnydd mewn gweithgarwch




**Ffigur 8: Tuedd yng Nghyfanswm y Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Ngwledydd Cartref y DU ar gyfer pobl 18 i 29 oed, 2002 i 2022** (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)





**Ffigur 9: Tuedd yng Nghyfanswm y Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Ngwledydd Cartref y DU ar gyfer pobl 30 i 64 oed, 2002 i 2022** (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)

entrepreneuraidd cyfnod cynnar ar gyfer y grŵp oedran hwn wedi codi ar gyfradd arafach dros y ddau ddegawd diwethaf o'i gymharu â'r grŵp oedran 18-29. Yng Nghymru fe gododd y gyfradd TEA ar gyfer y rhai 30-64 oed o 4.4 y cant yn 2002 i 7.1 y cant yn 2022. Fe gododd y gyfradd yn y DU o 5.8 y cant i 10.4 y cant dros y cyfnod, tra bo'r twf cyflymaf wedi cael ei weld yng Ngogledd Iwerddon, gan godi o 3.5 y cant yn 2002 i 8.1 y cant yn 2022.

Dadansoddiad a allai fod yn fwy defnyddiol yw asesu'r duedd yn y gyfradd TEA ar gyfer y grŵp oedran 18-29 (lle ymddengys fod toriad naturiol yn nata gweithgarwch UK GEM) a chymharu honno â'r grŵp oedran 30 i 64. Dengys Ffigurau 8 a 9 fod y gyfradd TEA ar gyfer oedolion ifainc yng Nghymru, er gwaethaf llawer o amrywiadau blynyddol, wedi codi deirgwaith drosodd dros ddau ddegawd o 3.4 y cant yn 2002 i 10.3 y cant yn 2022. Fodd bynnag, roedd y gyfradd yn 2022 wedi gostwng o'i hanterth, sef 15.3%, yn 2021. Profodd y gwledydd cartref eraill gynnydd yng nghyfraddau TEA pobl 18 i 29 oed dros y cyfnod hefyd, ar gyfradd cynnydd a oedd yn debyg i Gymru.

Fe gyrhaeddodd cyfraddau TEA y rhai 30-64 oed eu hanterth ym mhob un o'r gwledydd cartref yn 2021. Digwyddodd hyn er gwaethaf y gostyngiad a welwyd yn 2020. Mae'r cynnydd mewn gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar ar gyfer y grŵp oedran hwn wedi codi ar gyfradd arafach dros y ddau ddegawd diwethaf o'i gymharu â'r grŵp oedran 18-29. Yng Nghymru fe gododd y gyfradd TEA ar gyfer y rhai 30-64 oed o 4.4 y cant yn 2002 i 7.1 y cant yn 2022. Fe gododd y gyfradd yn y DU o 5.8 y cant i 10.4 y cant dros y cyfnod, tra bo'r twf cyflymaf wedi cael ei weld yng Ngogledd Iwerddon, gan godi o 3.5 y cant yn 2002 i 8.1 y cant yn 2022.




**Ffigur 10: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Ngwledydd Cartref y DU yn ôl Statws Graddedig, 2022** (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)

# Agweddau a Bwriadau Entrepreneuraidd


Mae GEM wedi datblygu nifer o ddatganiadau agweddol sy'n darparu dirprwy ar gyfer potensial entrepreneuraidd mewn gwlad/rhanbarth. Maent yn cynnwys adnabod rhywun sydd wedi dechrau busnes yn y 2 flynedd ddiwethaf; canfyddiad am gyfleoedd da i ddechrau busnes; hunan-gred mewn meddu ar y sgiliau perthnasol i sefydlu busnes a bodolaeth ofn methu fel rhywbeth sy'n rhwystr i sefydlu busnes.

Adroddir ar ddata agweddol GEM yma ar gyfer y gyfran honno o'r boblogaeth nad ydynt eisoes yn entrepreneuriaid, gan y gall unigolion sy'n rhan o weithgarwch entrepreneuraidd deimlo dan orfodaeth i ddarparu atebion cadarnhaol yn yr Arolwg Poblogaeth Oedolion (APS).


Yng Nghymru yn 2022 mae 44.8 y cant o unigolion nad ydynt yn entrepreneuriaid yn dweud eu bod yn adnabod entrepreneur, nad yw'n arwyddocaol wahanol i gyfradd y DU o 43.7 y cant (Ffigur 11), nac i'r gyfradd yn 2021. Ar y cyfan mae 42.6 y cant o'r rhai nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru'n credu bod ganddynt y sgiliau i sefydlu busnes, sydd eto'n debyg i gyfartaledd y DU, sef 40.9 y cant.

Dim ond 33.0 y cant o'r rhai nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n credu bod cyfleoedd da i ddechrau busnes yn eu hardal yn y chwe mis nesaf. Roedd y gyfradd hon wedi gostwng o 40.8 y cant yn 2021 ond nid oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol. O'i gymharu, roedd 37 y cant o'r rhai nad ydynt yn entrepreneuriaid yn y DU yn meddwl bod cyfleoedd da i ddechrau busnes, yn nodedig roedd hyn yn ostyngiad arwyddocaol o'i gymharu â'r 47.7% a welwyd yn 2021.

Roedd ofn methu'n dal i fod yn weddol uchel yn 2022. Dywedodd bron i dair rhan o bump o'r rhai nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru a'r DU, a oedd yn meddwl bod cyfleoedd da i ddechrau busnes, y byddai ofn methu'n eu hatal rhag dechrau busnes.
Mae Ffigur 12 yn dangos yr un agweddau tuag at entrepreneuriaeth pan fo'r ymatebwyr yn gyfyngedig i bobl 18-24 oed yn unig. Roedd y gwahaniaeth mwyaf rhwng Cymru a'r DU yn y canfyddiad am gyfleoedd i ddechrau busnes; dim ond 34.8 y cant o'r bobl ifanc nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru oedd yn meddwl bod cyfleoedd da i ddechrau busnes yn eu hardal yn y 6 mis nesaf, sy'n arwyddocaol is na'r 49.9% yn y DU.





**Ffigur 11: Agweddau a Chanfyddiadau Entrepreneuraidd yng Nghymru a'r DU 2022**
(Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)




**Ffigur 12: Agweddau a Chanfyddiadau Entrepreneuraidd ymhlith pobl 18-24 oed yng Nghymru a'r DU 2022**
(Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)

Wrth gymharu agweddau pobl ifanc yn erbyn yr holl rai nad ydynt yn entrepreneuriaid (fel a ddangosir yn Ffigur 11) mae cyfran arwyddocaol uwch o bobl ifanc yng Nghymru'n adnabod rhywun sydd wedi dechrau busnes yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ar 60.8 y cant o'i gymharu â 44.8 y cant ar gyfer poblogaeth ehangach y rhai nad ydynt yn entrepreneuriaid. Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn y mesurau agweddol eraill. Yn y DU mae cyfran arwyddocaol uwch o bobl ifanc hefyd yn adnabod rhywun sydd wedi dechrau busnes (54.9 y cant) na'r boblogaeth ehangach (43.7 y cant).

Yn yr un modd, roedd cyfran uwch o bobl ifanc yn gweld cyfleoedd da i ddechrau busnes (49.9 y cant) o'i gymharu â'r boblogaeth ehangach (37.0 y cant). Yn arolwg 2022 roedd 33.0 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru'n cytuno bod cyfleoedd da i ddechrau busnes yn eu hardal leol yn y chwe mis nesaf o'i gymharu â 37.0 y cant yn y DU. Nid oedd y gyfradd yn 2022 yng Nghymru'n arwyddocaol is nag yn 2021 pan oedd y gyfradd yn 40.8 y cant; fodd bynnag, roedd cyfradd y DU yn arwyddocaol is, a hithau wedi gostwng o 47.7 y cant i 37.0 y cant. Fe wnaeth y bwlch ystadegol




**Ffigur 13: Canfyddiad am Gyfleoedd i Ddechrau Busnes yng Nghymru a'r DU, 2002-22**
(Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)

arwyddocaol mewn canfyddiad am gyfleoedd rhwng Cymru a'r DU a welwyd ers yr Argyfwng Ariannol Byd-eang (GFC) ddiflannu yn 2022 (Ffigur 13).


Roedd cyfran y boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n gweld cyfleoedd da i ddechrau busnes ond yn dweud y byddai ofn methu'n eu hatal rhag dechrau busnes yn 59.8 y cant yn 2022, nad oedd yn arwyddocaol wahanol i 2021 pan oedd yn 55.5 y cant. Nid oedd y gyfradd o 58.0 y cant ar gyfer y DU yn arwyddocaol wahanol i'r gyfradd gyfatebol yn 2021, sef 57.6 y cant, ychwaith.

Dengys Ffigur 14 fod ofn methu wedi codi yng Nghymru ers 2017 fel a wnaeth yn y gwledydd cartref eraill. Mae'n ddigon posibl bod y duedd hon tuag i fyny'n adlewyrchu'r lefelau cynyddol o ansicrwydd ynghylch Brexit yn ystod y cyfnod hwnnw. Fe gyfrannodd y pandemig ymhellach at deimlad cynyddol o fod ofn methu, gyda chodiadau'n cael eu gweld ers 2020. Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol mewn cyfraddau ofn methu ar draws y gwledydd cartref yn 2022.


Roedd cyfran y boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n gweld cyfleoedd da i ddechrau busnes ond yn dweud y byddai ofn methu'n eu hatal rhag dechrau busnes yn 59.8 y cant yn 2022, nad oedd yn arwyddocaol wahanol i 2021 pan oedd yn 55.5 y cant. Nid oedd y gyfradd o 58.0 y cant ar gyfer y DU yn arwyddocaol wahanol i'r gyfradd gyfatebol yn 2021, sef 57.6 y cant, ychwaith.

Dengys Ffigur 14 fod ofn methu wedi codi yng Nghymru ers 2017 fel a wnaeth yn y gwledydd cartref eraill. Mae'n ddigon posibl bod y duedd hon tuag i fyny'n adlewyrchu'r lefelau cynyddol o ansicrwydd ynghylch Brexit yn ystod y cyfnod hwnnw. Fe gyfrannodd y pandemig ymhellach at deimlad cynyddol o fod ofn methu, gyda chodiadau'n cael eu gweld ers 2020. Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol mewn cyfraddau ofn methu ar draws y gwledydd cartref yn 2022.


15.7 y cant oedd cyfran yr oedolion o oedran gweithio nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n disgwyl dechrau busnes o fewn y tair blynedd nesaf yn 2022. Roedd hyn yn ostyngiad, er nad oedd yn un arwyddocaol, o'r brig o 18.8 y cant yn 2021 (Ffigur 15). Roedd yr amcangyfrif o 18.5 y cant ar gyfer y DU yn 2022 yn debyg fwy neu lai i 2021 hefyd. Roedd y codiadau blynyddol yn y cyfraddau bwriad hyn yn ystod yr Argyfwng Ariannol Byd-eang o bosibl yn adlewyrchu rhesymau anghenraid. Mae'n debygol bod y codiadau a welwyd yn 2020-21 yn adlewyrchu bwriad yn seiliedig ar anghenraid a chyfle a ysgogwyd gan y pandemig oherwydd colledion swyddi ond hefyd ffyrdd newydd o weithio a chyfleoedd digidol. Efallai fod y gostyngiad yng Nghymru yn 2022 yn awgrymu dechrau dychweliad at dueddiadau blaenorol.




**Ffigur 14: Ofn Methu ymhlith y rhai sy'n gweld Cyfleoedd yng Ngwledydd Cartref y DU, 2002-22**
(Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)




**Ffigur 15: Disgwyliadau ar gyfer Dechrau Busnes yn y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Nghymru a'r DU ymhlith poblogaeth y rhai nad ydynt yn entrepreneuriaid, 2002-22**
(Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)




**Ffigur 16: Disgwyliadau ar gyfer Dechrau Busnes yn y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Ngwledydd Cartref y DU yn ôl Rhywedd, 2022** (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Oedolion GEM)

Yn 2022, ar 16.5 y cant, roedd cyfran y dynion nad ydynt yn weithgar yn entrepreneuraidd yng Nghymru a dywedodd eu bod yn bwriadu dechrau busnes yn y tair blynedd nesaf yn uwch na'r gyfran ar gyfer menywod, sef 14.8 y cant (Ffigur 16), er nad oedd y gwahaniaeth yn arwyddocaol. Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng 2021 a 2022 yng nghyfraddau'r dynion na'r menywod ychwaith.

Mae'r cyfraddau bwriad yn 2021 ar gyfer Cymru'n trosi'n gymhareb rhwng menywod a dynion o 90 y cant sy'n sylweddol uwch nag ar gyfer entrepreneuriaeth cyfnod cynnar yng Nghymru (64%). Mae'r gymhareb yn cymharu â 74 y cant yn Lloegr, 66 y cant yn yr Alban, 55 y cant yng Ngogledd Iwerddon a 73 y cant yn y DU gyfan.

# Rhuglder yn y Gymraeg a Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn 2022 yng nghyfraddau TEA y rhai yng Nghymru a oedd yn rhugl mewn Cymraeg llafar ac ysgrifenedig (10.1%); a allai siarad a deall rhywfaint o Gymraeg (9.8%), ac a oedd heb ryw lawer o sgiliau Cymraeg neu heb unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl (6.1%). Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn y cyfraddau TEA rhwng 2021 a 2022 ychwaith.

# Sylwadau i Gloi

Bu ymchwydd mewn gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf mewn ymateb i'r pandemig gan gyrraedd cyfradd uwch nag erioed o 10.3 y cant yn 2021. Mae'r gyfradd wedi gostwng yn ôl i 7.8 y cant yn 2022 ond, cyn y pandemig, y tro diwethaf i'r gyfradd gyrraedd lefel debyg oedd 2011. Mae bwriad i ddechrau busnes yn dal i fod yn fywiog yn 2022 hefyd gydag oddeutu 16 y cant yn bwriadu dechrau busnes o fewn 3 blynedd. Cyrhaeddodd cyfraddau bwriad ddigidau dwbl am y tro cyntaf yn 2020 ac maent wedi aros yn uchel. Yn nodedig, mae'r cyfraddau bwriad yng Nghymru yn 2022 yn debyg ar gyfer dynion a menywod.

Ynghyd â gweithgarwch entrepreneuraidd, mae agweddau tuag at entrepreneuriaeth yn weddol galonogol hefyd. Mae dros ddwy ran o bump (42.6%) o'r rhai nad ydynt yn entrepreneuriaid yn dweud bod ganddynt y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad i ddechrau busnes ac mae cyfran debyg (44.8%) yn adnabod entrepreneur sydd wedi dechrau busnes yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r rhain yn gyfrannau tebyg i 2021 ac maent yn nodwedd bwysig ar yr ecosystem entrepreneuraidd. O ran agweddau, mae cyfran debyg o'r rhai nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru a'r DU hefyd yn credu bod cyfleoedd da i ddechrau busnes yn lleol o fewn y chwe mis nesaf. Mae'r gyfradd ar gyfer Cymru wedi cynyddu'n arwyddocaol ers 2010 hefyd.

Ynghyd â'r cyfraddau bwriad mae'r mesurau hyn yn amlygu hyder yn y boblogaeth o ran gallu i ddechrau busnes llwyddiannus a'r amodau i wneud hynny. Gan barhau â'r duedd dros y blynyddoedd diwethaf nid yw cyfraddau TEA ymhlith dynion a menywod yn arwyddocaol wahanol yng Nghymru, er bod y bwlch rhwng y ddwy wedi cynyddu yn 2022. Mae entrepreneuriaeth ieuenctid yn dal i gynyddu o'i gymharu â lefelau cyn yr Argyfwng Ariannol Byd-eang tra bo cyfran y boblogaeth ifanc nad ydynt yn entrepreneuriaid sy'n adnabod entrepreneur, sef 60.8 y cant, yn sylweddol uwch nag ar gyfer poblogaeth ehangach y rhai nad ydynt yn entrepreneuriaid.

Yn llai cadarnhaol, mae ofn methu'n dal i fod yn broblem er bod y gyfradd yng Nghymru yn 2022 yn debyg i'r DU. Yn 2022 dywedodd ychydig o dan 60 y cant o'r rhai yng Nghymru a oedd yn gweld cyfleoedd i ddechrau busnes y byddai ofn methu'n eu hatal rhag ddechrau busnes. Er gwaethaf hyn, nid yw i'w weld fel pe bai wedi effeithio ar y rhai sy'n bwriadu gwneud yn y dyfodol.

Mae'r cwestiynau wedi'u diweddaru ynglŷn â chymhelliant yn arolwg GEM UK yn darparu rhai mewnwelediadau diddorol i feddylfryd entrepreneuriaid cyfnod cynnar yng Nghymru. Yn 2022 maent yn parhau i fod wedi'u cymell yn fwy cryf i ddechrau busnes gan yr angen i ennill bywoliaeth gan bod swyddi'n brin. Mae ychydig dros hanner yn ceisio gwneud gwahaniaeth yn y byd, sydd union yr un fath â'r DU. Parhau â thraddodiad busnes teuluol yw'r cymhelliad lleiaf pwysig o hyd yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill. Mae hyn yn dadgyfuno cymhelliad entrepreneuraidd mewn ffordd bwysig sy'n mynd y tu hwnt i deipoleg cyfle/anghenraid ddeuol syml.

Ar y cyfan, wrth i'r economi symud allan o'r pandemig mae gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru'n dal i fod yn fywiog. A dweud y gwir, dros yr 20 mlynedd ddiwethaf mae cyfraddau entrepreneuriaeth cyfnod cynnar wedi dyblu. Mae entrepreneuriaeth ieuenctid yn arwyddocaol uwch nag yn 2022 hefyd a chyda chyfraddau uwch o bobl ifanc yn adnabod entrepreneur, ceir potensial pellach i'r grŵp oedran hwn barhau i gyflymu gweithgarwch entrepreneuraidd yn y blynyddoedd sydd i ddod.

## Ymwadiad

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan gonsortiwm GEM a thîm GEM UK; yr awduron sy'n llwyr gyfrifol am ddadansoddi a dehongli'r data.

**I gael rhagor o wybodaeth am brosiect GEM UK, cysylltwch â**

Aston University
BIRMINGHAM UK